**"A"**

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Fawrth, 9fed Mai, 2023**, (yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol) yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 8.00 p.m. hyd 9.35 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

## 9. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd am y cyfle ddaeth i'w ran i fod yn Gadeirydd am y flwyddyn 2023/24. Diolchodd i'r cyn Gadeirydd am ei wasanaeth.

## 10. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 11. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 3ydd EBRILL, 2023

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 3ydd Ebrill, 2023. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 115 Cadarnhau Cofnodion – cymal (a)…Cronfa Cofid**

**Adroddodd** y Clarc:

iddi wneud ymholiadau gyda Tyddyn Sachau ynglyn a chôst blodau ar gyfer y potiau cafn yn mesur 1.2m x 45cm x 45cm a derbyniwyd pris am compost a phlanhigion o £35 neu ychydig yn fwy am y compost.

Hefyd derbyniwyd pris gan 'Earth Anchors Cyf.' am botiau ailgylchu yn mesur 1.2m x 45cm x 45cm - £173.25 yr un (£996.25 am 5) + cludiant o £130.

Roedd ymholiadau eisoes wedi eu gwneud i geisio cael trwydded gan Gyngor Gwynedd i osod y potiau yn y lleoliadau a nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor.

Ynglyn a hysbysfyrddau derbyniwyd pris o £251.16 + TAW am hysbysfwrdd aluminium fyddai'n gallu cymryd 6 papur A4.

O berthynas i'r lloches bws, nid oedd wedi cysylltu a Mr. a Mrs. Ken Evans, Pont-y-Gof, hyd yn hyn ond iddi dderbyn amcanbris am loches agored gan 'Bus Shelters Cyf.' o £3,362.20 + cludiant a gosod o £984.57 (oll + TAW).

**Penderfynwyd**

(1) Prynu potiau yn Nhyddyn Sachau a gofyn iddynt blannu'r blodau a.y.
(Addawodd y Cynghorydd Glenys Williams fynd gyda'r Clarc i Dyddyn Sachau i weld beth a gynigir fel potiau yno).

(2) Gwneud ymholiadau gyda Chanolfan Bryncroes, Neuadd Goffa Sarn a Chongl Meinciau er canfod a fyddant yn barod i'r Cyngor gael rhoi hysbysfwrdd i fyny ar eu hadeilad.

(3) Ymhellach gofyn i Reolwr Meddygfa Rhydbach am gyfarfod i gael trafod ymhellach gosod y lloches ochr y Feddygfa i'r briffordd. Y cynrychiolwyr i gyfarfod y Rheolwr yw'r Cynghorwyr Siôn Williams, Gwenan Griffith a'r Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd).

(4) Yn dilyn cael atebion i oll o'r uchod (ar wahan i'r potiau blodau lle mae'r Cyngor yn prynu rhain eu hunain) – hysbysfyrddau, lloches bws, plannu coed mewn gwahanol leoliadau ac hefyd arwydd 'Bryncroes' fod cais i'w gyflwyno i Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llyn.

**(b) Eitem 119 – Ceisiadau am Gyfraniadau Ariannol**

**Adroddodd** y Clarc ei bod wedi gofyn i Ddirpwy Ysgol Botwnnog am fwy o wybodaeth ynglyn a'u cais am gymorth at archebu stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ond nad oedd unrhyw ateb i law. Addawodd Y Cynghorydd Elin Hughes gael gair a'r Dirprwy.

**(c) Eitem 120 – Archwilio'r Cyfrifon**

**Derbyniwyd** cadarnhad y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd, yn barod i ymgymgryd a'r gwaith o archwilio cyfrifon y Cyngor am 2022/23.

**Nododd** y Clarc hefyd fod Cyngor Botwnnog wedi cael ei nodi fel cael archwiliad llawn gan Archwilio Cymru eleni.

(ch)**Eitem 124 – Swydd y Clarc a'r swyddfa**

**Diolchodd** y Clarc i'r Cyngor am eu penderfyniad i godi'r cyflog.

**Adroddodd** nad oedd wedi prynu cyfrifiadur hyd yn hyn ond ei fod mewn llaw.

## 12. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn i sylw'r Cyngor:

a) Cais C22/0637/32/LL – cais llawn ar gyfer datblygiad yn cynnwys 8 ty fforddiadwy ynghyd a gwaith cysylltiol ar salfe eithro Gwledig (cam 1 o 2) – tir ger Ystad Congl
b) Meinciau, Botwnnog.
c) Cais C23/0351/32/LL – cais ar gyfer creu morlyn slyri yn Nhre Wen, Botwnnog.
d) Cais C23/0367/32/LL – cais llawn i drosi adeiladau allanol presennol i uned gwyliau ynghyd a datblygiadau cysylltiol – Dyffryn, Botwnnog.

**Penderfynwyd**

(1) Cefnogi cais a nodir dan gymal (a) uchod mewn egwyddor gan nodi ei bod yn hanfodol fod y tai hyn yn dai fforddiadwy i ofynion lleol ac y dylai hyn gael ei gynnwys fel rhan o'r amodau cynllunio.

Hefyd gofyn a fyddai modd cael amcangyfrif o beth fyddai pris y tai yma ar y farchnad fel tai fforddiadwy.

Yn ogystal tynnu sylw'r Swyddog mai cynlluniau'r tai presennol sydd ar y wefan a gofyn am gael gweld y planiau diwygiedig.

(2) Cefnogi cais (b) ac (c) uchod.

## 13. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

**Penderfynwyd**

(a) anfon y materion a ganlyn i sylw'r Adran Priffyrdd:
tyllau sydd yn y ffordd ar bont Saithbont; yr angen am linellau 'Give Way' ar y ffordd sy'n arwain o'r Ystad Dai ym Motwnnog i'r ffordd sy'n arwain fyny o Cae Caead i'r briffordd.

(b) Cefnogi cais Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd, am gylchfan ym Mhenygroeslon (copi o'r e-bost wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen) ac anfon at Iwan ap Trefor y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd, yn ei hysbysu o gefnogaeth y Cyngor.

(c) Anfon gair o ddiolch i'r Tim Glanhau, Cyngor Gwynedd (Alan a Gareth) am y gwaith canmoladwy a wnaed ganddynt yn tacluso'r ardal.
(d) Nodwyd y rhaglen waith ar gyfer mis Mai sef:
arwisgo'r ffyrdd a ganlyn:
Pengroeslon i lawr at Garej Tegfan (B4417); Ty Newydd – Botwnnog (30mya) ag Eglwys Llaniestyn – Cefn Gaer Bach, Botwnnog.

## 14. AWDURDOD I DALU

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus y mis hwn.

## 15. DATGANIAD YSGRIFENEDIG IECHYD DEMOCRATAIDD A DIGIDOL CYNGHORAU CYMUNED A THREF

**Cyflwynwyd** datganiad Rebecca Evans, AS, y Gweinidog Cyllid Llywodraeth Leol ar y pwnc uchod. (Copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).
**Penderfynwyd** nodi ei dderbyn.

## 16. CWRS HYFFORDDIANT NABOD NATUR

**Cyflwynwyd** gwybodaeth gan Un Llais Cymru ar 'Nabod Natur – Eco-llythrennedd i Adfer Natur'. (Copi ar gael gan y Clarc).
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

## 17. CYNIGION AR GYFER CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2023 UN LLAIS CYMRU

**Gwahoddiad** i gyflwyno hyd at uchafwm o ddau gynnig i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Un Llais Cymru, ar 30ain Medi, 2023 – y cynigion i fod i law erbyn 23ain Mehefin.
**Penderfynwyd** ystyried yr uchod yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.
**Yn y cyswllt hwn,** cyflwynwyd gwybodaeth am gynhadledd arloesol gan Un Llais Cymru sydd i'w gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol ar ddydd Mercher, 5ed Gorffennaf, Gofynnwyd am gefnogaeth.
**Penderfynwyd** ystyried hwn yn y cyfarfod nesaf.

## 18. CYRSIAU UN LLAIS CYMRU AM FIS MAI

Cyflwynwyd manylion y cyrsiau a gynigir gan Un Llais Cymru am fis Mai.

## 19. CYFARFOD ARFON/DWYFOR O UN LLAIS CYMRU

**Rhoddodd** Y Cynghorydd Siôn Williams amlinelliad o'r hyn drafodwyd yng nghyfarfod Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru ar 5ed Ebrill, 2023 – y gwasanaeth a gynigir gan Archwilio Cymru yn peri pryder gan nifer o'r Cynghorau; cyfyngu cyflymdra drwy bentrefi i 20 mya – pob Cyngor unigol i edrych ar y pentrefi a effeithir yn eu Cymuned hwy; 'boy racers' hyn yn anodd i'w blismona meddai'r Heddlu ac hefyd sefyllfa yr ambiwlans awyr yn y Gogledd.
Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 28ain Mehefin.
Diolchwyd i'r Cynghorydd Siôn Williams am ei adroddiad.

## 20. ARDAL NI 2035 DALGYLCH LLYN

**Nodwyd** fod ail ddigwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Llyn i'w gynnal yn Neuadd Abersoch ar 17eg Mai rhwng 4.00 y.h. a 6.00 y.h.